

Annwyl Ymgeisydd,

Canolfan y Mileniwm Cymru yw cartref celfyddydau perfformio'r genedl. Un o brif atyniadau diwylliannol y DU, mae'r Ganolfan yn darparu rhaglen helaeth o adloniant o safon byd-eang, yn arddangos creadigrwydd a thalentau Cymreig, yn cydweithio gyda chwmnïau artistig rhyngwladol, ac yn cynnig dysgu creadigol a chyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned gyda'r nod o gynyddu'r mynediad at gelf a diwylliant. Rydym yn falch o fod wedi croesawu dros 16.5 miliwn o ymwelwyr ers agor yn 2004.

Nod y Ganolfan yw Ysbrydoli Ein Cenedl, Rhoi Argraff ar y Byd, drwy greu profiadau ysbrydoledig sy'n ehangu'r gorwelion. Yn y blynyddoedd i ddod mae'r Ganolfan yn gobeithio:

- Codi dyhead pob person ifanc yng Nghymru
- Bod yn agored i bawb
- Cael ei dathlu fel un o'r canolfannau blaenllaw ym myd celfyddydau perfformio
- Creu gwaith arloesol fydd yn arddangos Cymru i'r byd

Fel **Gwirfoddolwr Ymgysylltu ac Aelodaeth** yn y Ganolfan, byddwch yn helpu i hyrwyddo Cynllun Aelodaeth y Ganolfan yn ogystal ag annog cyfraniadau i gefnogi ein gwaith elusennol. Byddwch yn ymgysylltu'n weithredol â chwsmeriaid, yn eu diweddarau am y buddion o fod yn Aelod; sgwrsio am ein prosiect Dysgu Creadigol; a chyfathrebu pwysigrwydd cyfraniadau wrth gefnogi'r rhain.

Byddwch hefyd yn cael gwyllo'r amrywiaeth eang o sioeau fel rhan o'n rhaglen artistig gynyddol.

Y gobaith yw y byddai'n gwirfoddolwyr yn gwneud 2 shift yr wythnos ar gyfartaledd, ond os ydych eisiau treulio mwy o amser gyda ni yn y Ganolfan, mae'r croeso i chi wneud hynny. Mae shift yn dueddol o fod yn ddim mwy na pedair awr, ond os ydynt yn hirach na hyn byddwn yn rhoi gwybod i'n gwirfoddolwyr.

Mae pawb yn gymwys i wneud cais am swydd wirfoddol, fodd bynnag byddwn yn blaenoriaethu ceisiadau o ardal Gaerdydd.

Os ydych yn llwyddiannus bydd angen i chi fynychu sesiwn anwytho.

Mae'n rhaid i chi fod ar gael ar gyfer dyddiadau'r sesiynau anwytho.

Rydym yn edrych ymlaen at glywed gennych yn fuan a diolch yn fawr am eich diddordeb mewn ymuno gyda'n tîm!

Y Tîm Profiad Cwsmer

Teitl :	Gwirfoddolwr Ymgysylltu ac Aelodaeth
Adran :	Profiad Cwsmer a Datblygu
Yn atebol i :	Rheolwr Profiad Cwsmer
Oriau :	Er mwyn cael y gorau allan o'r rhaglen rydym yn argymhell bod gwirfoddolwr yn gwneud tua 2 shiftt yr wythnos (hyd at 4 awr y shiftt)
Pwrpas y Rôl :	I hyrwyddo Cynllun Aelodaeth y Ganolfan – cynyddu ymwybyddiaeth a nifer yr aelodau – ac ysbrydoli cwsmeriaid i gefnogi ein gwaith elusennol drwy wneud cyfraniadau
Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:	1. Ymgysylltu a chwsmeriaid ynglŷn â Chynllun Aelodaeth y Ganolfan a'r gwaith elusennol 2. Bod yn bresennol yn y gofod Blaen y Tŷ cyn i sioe ddechrau ac mewn digwyddiadau perthnasol y Ganolfan 3. Gosod a chlirio'r orsaf Aelodau 4. Cofrestru Aelodau newydd ar ddyfeisiadau tabled y Ganolfan 5. Siarad yn rhagweithiol am brosiectau, cenhadaeth a gweledigaeth y Ganolfan 6. Annog cyfraniadau pan yn addas; a chyfathrebu pwysigrwydd cyfraniadau a sut maen nhw'n cefnogi ein gwaith elusennol 7. Cynnal a chadw at werthoedd craidd y Ganolfan 8. Rhoi adborth i'r tîm rheoli i wella sut mae'r cynllun yn rhedeg

Manyleb Person

1	Chwaraewr tîm cryf gydag arddull cyfathrebu agored dda	Hanfodol
2	Gallu i feddwl yn greadigol a datrys problemau mewn amgylchedd prysur	Hanfodol
3	Bod yn hyderus wrth siarad gydag aelodau o'r cyhoedd	Hanfodol
4	Ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth cwsmer rhagorol	Hanfodol
5	Dros 17 oed	Hanfodol
6	Gallu sefyll yn gorfforol am gyfnodau o 30 munud	Hanfodol
7	Gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg	Dymunol